



# P

erlau mewn Perygl LIFE+GB – Afon Eden, Cymru

## Y Fisglen Berlog Dŵr Croyw

(*margaritifera margaritifera*)

Y fisglen berlog dŵr croyw yw un o'r inferebraitiad sydd a'r hyd oes hiraf, gallent fyw am dros 100 mlynedd. Gynt yn niferus ac i'w gweld ar hyd Prydain mae ei niferoedd wedi lleihau yn sylweddol ac mae nifer o boblogaethau bellach ar fin diflannu yn gyfan gwbl.

Mae'r lleihad hwn wedi amlygu oherwydd nifer o ffactorau:

- Diraddio cynefin y misglod
- Pysgota perlau hanesyddol
- Dirywiad mewn ansawdd dŵr
- Gwaith sianeleiddio afonol
- Newid mewn defnydd tir

Mae poblogaeth MBDC yr Eden yn un o'r rhai olaf yng Nghymru ac mae angen gweithredu ar gyfer sicrhau dyfodol iddynt.



Misglod perl yr afon Eden.

Amcanion prosiect Perlau mewn Perygl yw:


**ADFER** cynefin y misglod, eogiaid a brithyll brodorol.

**SICRHAU** dyfodol i boblogaethau o fisglod perl dŵr croyw.

**CYFATHREBU** gyda chynulleidfaoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i godi ymwybyddiaeth o faterion cadwraethol misglod perl dŵr croyw.

# Cylch bywyd y Fisglen Berlog

Mae gan y fisglen berlog gylch bywyd unigryw a chymhleth. Mae'r gwrw yn rhyddhau ei lwyth i'r dŵr ac yna fe gaiff ei hidlo gan y fenyw ac mae hyn yn ei ffrwythloni. Mae wyau yn datblygu y tu mewn iddi cyn cael eu rhyddhau fel larfae (neu glochidia). Os ydynt yn lwcus byddent yn dod i gysylltiad a physgodyn brodorol ifanc (brithyll neu eog), a byddent yn glynu i'w tagellau. Dim ond 4 ym mhob miliwn fydd yn sicrhau i wneud hyn. Maent yn datblygu ymhellach ar y tagellau am 9 mis cyn syrthio i wely'r afon. Byddent yn tyfu i fod yn fisglod perl ifanc yng ngwely'r afon. Maent yn cymryd oddeutu pymtheg mlynedd i fod yn fisglen aeddfed, yn y cyfnod hwn maent yn andros o sensitif i lygredd a dyddodiad o waddod man.



## Adfer Cynefin

Mae hen goedwig Brynteg yn cael effaith negyddol sylweddol ar ACA yr Afon Eden felly mae gwaith adfer wedi dechrau yma.

Mae cwmni Gwasanaethau'r Cwm wedi difodi adfywiad anfwriadol o goed conwydd ar y safle. Mae'n gam angenrheidiol i ddifodi'r coed conwydd sydd yma, gan eu bod yn dominyddu'r adfywiad o goed, os na chant eu difodi yna ni fydd yr ardal yn gallu dychwelyd i fod yn ardal cymysg o goed brodorol a cors naturiol sydd o fudd i'r MBDC.



©pearlsinperil

Ar hyn o bryd mae'r ffosydd agored yma yn cyflymu'r llif o ddŵr ac mae hyn yn achosi cynnydd mewn erydiad a chlodiant gwaddod sy'n niweidiol i'r misglod perl. Wrth gau ffosydd byddem yn creu system afonol fwy naturiol a fydd yn lleihau'r cyfaint o waddod sy'n lifo i fewn ir Eden.

Cwmni S.E.Metcalf sydd yno yn sicrhau fod yr ardal yn gwbl wrth-stoc ar gyfer sicrhau fod ein coed brodorol yn cael llonydd i dyfu a ffynnu.

## Perlau yn y dosbarth



Drwy gynllun addysgol byddem yn amcanu i gynyddu ymwybyddiaeth am y fisglen gyda plant lleol. Y gobaith yw tynnu sylw tuag at hanes diwylliannol pwysig y fisglen ym Mhrydain, addysgu am eu gylch bywyd, eu cynefin a bygythiadau i oroesiad y rhywogaeth.

Gall oedolyn hidlo 50 litr i ddŵr y dydd, sy'n cael effaith gadarnhaol ar yr ecosystem afonol lleol gan gynnwys iechyd pysgod eog ffurf.

# Gweithredoedd Arfaethedig


- Gwella cynefin afonol drwy hadu graean glan, ailosod meini a malurion pren.
- Lleihau mewnbwn o fwynau niweidiol a gwaddod man.
- Aseu newidiadau mewn ansawdd dŵr, lefelau systio a niferoedd pysgod eog ffurf a'r FBDC

## Gwlypdir fferm – Manteision



©NLEA&SEPA

- Trin dŵr buarth budur cyn ei rhyddhau i fewn i'r cwrs dŵr.
- Yn hyblyg
- Hawdd i'w adeiladu
- Diogel i ffermwyr a'r cyhoedd



- Dim arogl drwg
- Darparu cynefin ar gyfer adar ac amffibiaid

## Cyllid

Mae cymorth ariannol ar gael i ffermwyr a tîrfeddiawyr ar gyfer:

- Creu gwlypdir i leihau llygredd fferm
- Cau ffosydd

Cysylltwch a'r swyddog prosiect am fwy o wybodaeth.



Os ydych eisiau trafod cymorth ariannol neu am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r prosiect cysylltwch â [Elain Gwilym](#)

Swyddog Prosiect Afon Eden

Teleffon 01766 772251 / 07920590503

E-bost

[elain.gwilym@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:elain.gwilym@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)